

EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

Rhif 81 – Côr Cerdd Dant Bl 6 ac iau (YC/Ad)
dim mwy na 30 mewn nifer
'O Deuwch Oll i Fethlehem – Heledd Siôn



O Deuwch Oll i Fethlehem – Heledd Siôn

O deuwch oll i Fethlehem
I weled baban Mair
A gysga'n drwm
Mewn gwely llwm,
Y preseb pren a'r gwair.

Bugeiliaid ddaethant ar eu hynt
Ag anrheg iddo Ef,
Yn fyn ac ŵyn
I'r baban mwyn,
Addolant blentyn nef.

Beth am y doethion, meddech chi,
A'u holl anrhegion drud
A'r seren glir
Uwchben y tir
A'u t'wysodd at y crud?

Addolwn ninnau'r Iesu mawr
A chofiwn wyneb tlws,
Yn fintai glyd
Awn ninnau i gyd
I agor cil y drws.

Diolch yn fawr i Wasg y Bwthyn am ei caniatâd